OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1408 (Cy. 249)

## BWYD, CYMRU

## DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Materion Gwledig a'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd a bwyd.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/995 (Cy. 81)) ("Rheoliadau 2009"). Mae'r diwygiadau'n ymwneud â gweithredu Erthygl 3 o Reoliad (EU) 2019/1010 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gysoni rhwymedigaethau adrodd ym maes deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd (OJ Rhif L 170, 25.6.2019, t. 115). Mae Rheoliad (EU) 2019/1010 yn diwygio Erthygl 18 o Gyfarwyddeb 2004/35/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar atebolrwydd amgylcheddol o ran atal ac adfer difrod amgylcheddol (OJ Rhif L 143, 30.4.2004, t. 56), ac yn disodli Atodiad 6 iddi. Mae rheoliad 2 yn mewnosod darpariaeth newydd yn Rheoliadau 2009 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gorfodi roi gwybodaeth benodol yn ymwneud ag achosion o ddifrod amgylcheddol i Weinidogion Cymru.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1671 (Cy. 158)) ("Rheoliadau 2010"), sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi a gweithredu safonau marchnata sy'n gymwys i wyau deor, cywion dofednod buarth fferm, ac wyau

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2019 No. 1408 (W. 249)

## ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

## FOOD, WALES

The Rural Affairs and Environment (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2019

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make amendments to legislation relating to environmental protection and food.

Regulation 2 amends the Environmental Damage (Prevention and Remediation) (Wales) Regulations 2009 (S.I. 2009/995 (W. 81)) ("the 2009 Regulations"). The amendments relate to the implementation of Article 3 of Regulation (EU) 2019/1010 of the European Parliament and of the Council on the alignment of reporting obligations in the field of legislation related to the environment (OJ No. L 170, 25.6.2019, p. 115). Regulation (EU) 2019/1010 amends Article 18 of, and replaces Annex 6 to, Directive 2004/35/EC of the European Parliament and of the Council on environmental liability with regard to the prevention and remedying of environmental damage (OJ No. L 143, 30.4.2004, p. 56). Regulation 2 inserts a new provision into the 2009 Regulations which requires enforcing authorities to report certain information relating to cases of environmental damage to the Welsh Ministers.

Regulation 3 amends the Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2010 (S.I. 2010/1671 (W. 158)) ("the 2010 Regulations"), which make provision for the enforcement and execution of marketing standards applicable to eggs for hatching, farmyard poultry

yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta. Mae rheoliad 3(2) i (5) yn addasu cyfeiriadau at Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 a Rheoliad (EC) Rhif 1234/2007 yn y darpariaethau gorfodi yn Rheoliadau 2010.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1719 (Cy. 195)) ("Rheoliadau 2011"), sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi a gweithredu safonau marchnata sy'n gymwys i gig dofednod. Mae rheoliad 4(2) yn addasu cyfeiriadau at Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 a Rheoliad (EC) Rhif 1234/2007 yn y darpariaethau gorfodi yn Rheoliadau 2011.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

chicks, and eggs in shell for human consumption. Regulation 3(2) to (5) adjusts references to Regulation (EU) No 1308/2013 and Regulation (EC) No 1234/2007 in the enforcement provisions within the 2010 Regulations.

Regulation 4 amends the Poultrymeat (Wales) Regulations 2011 (S.I. 2011/1719 (W. 195)) ("the 2011 Regulations"), which make provision for the enforcement and execution of marketing standards applicable to poultrymeat. Regulation 4(2) adjusts references to Regulation (EU) No 1308/2013 and Regulation (EC) No 1234/2007 in the enforcement provisions within the 2011 Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1408 (Cy. 249)

# BWYD, CYMRU

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Materion Gwledig a'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

*Gwnaed* *28 Hydref 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *30 Hydref 2019*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(**2**), ac atal ac adfer difrod amgylcheddol(**3**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio a gwerthuso rheoliadau 3 a 4, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu

(**1**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mae wedi ei diddymu yn rhagolygol gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) o'r diwrnod ymadael (gweler adran 20 o'r Ddeddf honno).

(**2**) O.S. 2010/2690.

(**3**) O.S. 2014/1890.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2019 No. 1408 (W. 249)

# ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

# FOOD, WALES

## The Rural Affairs and Environment (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2019

*Made* *28 October 2019*

*Laid before the National Assembly for Wales* *30 October 2019*

*Coming into force in accordance with regulation 1(2)*

The Welsh Ministers are designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**1**) in relation to the common agricultural policy of the European Union(**2**), and the prevention and remedy of environmental damage(**3**).

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972.

There has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of regulations 3 and 4 as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing

(**1**) 1972 c. 68. Section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and section 3 of, and Part 1 of the Schedule to, the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7). It is prospectively repealed by section 1 of the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) from exit day (see section 20 of that Act).

(**2**) S.I. 2010/2690.

(**3**) S.I. 2014/1890.

Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Materion Gwledig a'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym 21 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y'u gosodir.

**Diwygio Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009**

**2.** Ar ôl rheoliad 18 o Reoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009(**2**) mewnosoder—

> **"Adrodd gan awdurdodau gorfodi**
>
> **18A.**—(1) Pan fo awdurdod gorfodi wedi cyflwyno hysbysiad i weithredwr cyfrifol o dan reoliad 18(1) ar ôl i'r rheoliad hwn ddod i rym, rhaid i'r awdurdod gorfodi hysbysu Gweinidogion Cymru am y difrod amgylcheddol perthnasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.
>
> (2) Rhaid i'r hysbysiad a ddarperir i Weinidogion Cymru o dan baragraff (1) gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—
>
> (a) y math o ddifrod amgylcheddol, yn unol â'r categorïau a nodir yn rheoliad 4(1)(a) i (d),
>
> (b) y dyddiad y digwyddodd y difrod amgylcheddol neu y cafodd ei ddarganfod, ac
>
> (c) y gweithgaredd a achosodd y difrod amgylcheddol, yn unol â'r rhestr a nodir yn Atodlen 2, ac eithrio mewn achosion pan fo rheoliad 5(2) yn gymwys.

(**1**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 2019/1243 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 198, 25.7.2019, t. 241).

(**2**) O.S. 2009/995 (Cy. 81), a ddiwygiwyd gan O.S. 2015/1394 (Cy. 138). Mae diwygiadau presennol a rhagolygol eraill nad ydynt yn berthnasol.

the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**1**).

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972.

**Title and commencement**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Rural Affairs and Environment (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2019.

(2) These Regulations come into force 21 days after the day on which they are laid.

**Amendment of the Environmental Damage (Prevention and Remediation) (Wales) Regulations 2009**

**2.** After regulation 18 of the Environmental Damage (Prevention and Remediation) (Wales) Regulations 2009(**2**) insert—

> **"Reporting by enforcing authorities**
>
> **18A.**—(1) Where an enforcing authority has served a responsible operator with notification under regulation 18(1) after the coming into force of this regulation, the enforcing authority must, as soon as reasonably practicable, notify the Welsh Ministers of the relevant environmental damage.
>
> (2) The notification provided to the Welsh Ministers under paragraph (1) must contain the following information—
>
> (a) the type of environmental damage, according to the categorisations set out in regulation 4(1)(a) to (d),
>
> (b) the date on which the environmental damage occurred or was discovered, and
>
> (c) the activity which caused the environmental damage, according to the list set out in Schedule 2, except in cases where regulation 5(2) applies.

(**1**) OJ No L 31, 1.2.2002, p. 1, last amended by Regulation (EU) No 2019/1243 of the European Parliament and of the Council (OJ No L 198, 25.7.2019, p. 241).

(**2**) S.I. 2009/995 (W. 81), amended by S.I. 2015/1394 (W. 138). There are other current and prospective amendments, none of which is relevant.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gorfodi ddarparu unrhyw wybodaeth arall mewn perthynas â'r difrod amgylcheddol y mae'n rhesymol i Weinidogion Cymru ofyn amdani."

**Diwygio Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(6)(a), ar ôl "unrhyw ddarpariaeth yn y" mewnosoder "Rheoliad Sengl CMO neu".

(3) Yn Atodlen 1, yn y tabl yn Rhan 1, yn rhes 1—

(a) yn lle'r cofnod yng ngholofn 1 rhodder—

"Erthygl 116 o'r Rheoliad Sengl CMO i'r graddau y mae'n ymwneud â marchnata wyau deor a chywion";

(b) yn y cofnod yng ngholofn 2, yn lle "Erthygl 116 o'r Rheoliad Sengl CMO a Rhan C o Atodiad XIV iddo," rhodder "Rhan C o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO".

(4) Yn Atodlen 2, Rhan 1—

(a) yn lle pennawd y tabl rhodder—

"RHAN 1

DARPARIAETHAU'R RHEOLIAD SENGL CMO NEU REOLIAD (EU) 2013"
;

(b) yn y tabl—

(i) yn lle'r pennawd yng ngholofn 1 rhodder—

"Y ddarpariaeth berthnasol yn Rheoliad (EU) 2013 neu pan nodir hynny, y Rheoliad Sengl CMO";

(ii) ym mhennawd colofn 2, yn lle "gyda darpariaethau Rheoliad (EU) 2013" rhodder "gyda'r darpariaethau";

(iii) yn rhes 1, yn lle'r cofnod yng ngholofn 1 rhodder—

"Erthygl 116 o'r Rheoliad Sengl CMO, i'r graddau y mae'n ymwneud â marchnata wyau".

(**1**) O.S. 2010/1671 (Cy. 158), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043, O.S. 2013/3270 (Cy. 320) ac O.S. 2019/463 (Cy. 111). Mae O.S. 2010/1671 (Cy. 158) wedi ei ddiwygio hefyd gan O.S. 2019/732 (Cy. 137) a daw'r diwygiadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(3) The Welsh Ministers may require an enforcing authority to provide such other information in relation to the environmental damage as the Welsh Ministers may reasonably request."

**Amendment of the Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2010**

**3.**—(1) The Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2010(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 3(6)(a), after "any provision of" insert "the Single CMO Regulation or".

(3) In Schedule 1, in the table at Part 1, in row 1—

(a) for the entry in column 1 substitute—

"Article 116 of the Single CMO Regulation insofar as it relates to the marketing of eggs for hatching and chicks";

(b) in the entry in column 2, omit "Article 116 of, and".

(4) In Schedule 2, Part 1—

(a) for the table heading substitute—

"PART 1

PROVISIONS OF THE SINGLE CMO REGULATION OR REGULATION (EU) 2013";

(b) in the table—

(i) in the heading to column 1 substitute—

"Relevant provision of Regulation (EU) 2013 or where stipulated, the Single CMO Regulation";

(ii) in the heading to column 2, omit "of Regulation (EU) 2013";

(iii) in row 1, for the entry in column 1 substitute—

"Article 116 of the Single CMO Regulation, insofar as it relates to the marketing of eggs ".

(**1**) S.I. 2010/1671 (W. 158), amended by S.I. 2011/1043, S.I. 2013/3270 (W. 320) and S.I. 2019/463 (W. 111). S.I. 2010/1671 (W. 158) is also amended by S.I. 2019/732 (W. 137) with these amendments coming into force on exit day. There are other amending instruments but none is relevant.

(5) Yn Atodlen 3, yn lle'r cofnod yng ngholofn 2, rhes 3, rhodder—

"Erthygl 1(3) o Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 a phwynt 4 o Ran D o Atodiad II iddo, Erthygl 116 o'r Rheoliad Sengl CMO, Rhan VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013 a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008, i'r graddau y maent yn ymwneud ag wyau Dosbarth B".

**Diwygio Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1, yn y tabl yn Rhan 1, yn rhes 1—

(a) yn lle'r cofnod yng ngholofn 1 rhodder—

"Erthygl 116 o'r Rheoliad CMO Sengl, i'r graddau y mae'r ddarpariaeth honno yn ymwneud â marchnata cig dofednod";

(b) yn lle'r cofnod yng ngholofn 2 rhodder—

"Rhan B(I)(2) a (3) a (III)(1) o Atodiad XIV i'r Rheoliad CMO Sengl a Rheoliad y Comisiwn".

(5) In Schedule 3, for the entry in column 2, row 3 substitute—

"Article 1(3) of, and point 4 of Part D of Annex II to, Regulation (EC) No 2160/2003, Article 116 of the Single CMO Regulation, Part VI of Annex VII to Regulation (EU) 2013 and Commission Regulation (EC) No 589/2008, insofar as they relate to Class B eggs".

**Amendment of the Poultrymeat (Wales) Regulations 2011**

**4.**—(1) The Poultrymeat (Wales) Regulations 2011(**1**) are amended as follows.

(2) In Schedule 1, in the table at Part 1, in row 1—

(a) for the entry in column 1 substitute—

"Article 116 of the Single CMO Regulation, insofar as that provision relates to the marketing of poultrymeat";

(b) for the entry in column 2 substitute—

"Part B(I)(2) and (3) and (III)(1) of Annex XIV to the Single CMO Regulation and the Commission Regulation".

*Lesley Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
28 Hydref 2019

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
28 October 2019

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2019

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2011/1719 (Cy. 195), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/3270 (Cy. 320) ac O.S. 2019/463 (Cy. 111). Mae O.S. 2011/1719 (Cy. 195) wedi ei ddiwygio hefyd gan O.S. 2019/732 (Cy. 137) a daw'r diwygiadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(**1**) S.I. 2011/1719 (W. 195), amended by S.I. 2013/3270 (W. 320) and S.I. 2019/463 (W. 111). S.I. 2011/1719 (W. 195) is also amended by S.I. 2019/732 (W. 137) with these amendments coming into force on exit day.

ISBN 978-0-348-20478-0

£6.90

W201910281023 11/2019

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/1408